Lawrlwytho eLyfrau i ddyfeisiau tabled - dyfeisiau Apple

Mae Get IT Together yn bartneriaeth rhwng Citizens Online; BT, trwy eu rhaglen y Gymdeithas Gysylltiedig, a phartneriaid allweddol eraill (gweler y dudalen gefn). Mae Get IT Together yn ddull datblygu cymunedol i gynhwysiant digidol, gan helpu pobl ar draws yr ardal cael budd o ennill sgiliau ar-lein. Ar hyn o bryd mae gennym brosiectau Get IT Together wedi'u lleoli yng Ngwynedd, Rhondda Cynon Taf (RhCT) a Chaerffili.

Am fwy o wybodaeth, ewch i http://www.citizensonline.org.uk/projects/
Rydym wedi llunio'r canllaw hwn i helpu defnyddwyr y llyfrgell gael mynediad at e-lyfrau ac rydym yn gobeithio y byddwch yn ei chael yn ddefnyddiol.

Cyn i chi ddechrau

Bydd angen i ddefnyddwyr y gwasanaeth hwn fod yn aelodau llyfrgell er mwyn cael mynediad i'r wefan, gan y bydd angen rhif eu cerdyn arnynt yn ogystal â'u rhif PIN. Unwaith y bydd gennych rif y cerdyn a rhif PIN bydd angen i chi sicrhau bod gan eich tabled yr Ap cywir wedi'i osod er mwyn lawrlwytho'ch dewis.

iPad/iPod/iPhone

Er mwyn lawrlwytho'n llwyddiannus i'ch dyfais Apple mae'n rhaid i chi gael yr ap Bluefire Reader wedi'i osod. Ar ôl gosod a ffurfweddu'r ap gyda'ch Rhif Adobe gallwch ddechrau lawrlwytho eich teitlau gan bori'r wefan hon drwy eich dyfais Apple.



1/ Lawrlwythwch yr Ap. 2/ Bydd Bluefire yn lansio. 3/ Bydd y Silff Lyfrau yn cael ei lansio. 4/ Y lawrlwytho'n cael ei gwblhau.

Nawr bod gennych yr Ap Bluefire Reader wedi'i osod, byddwch yn gallu defnyddio'ch porwr i fynd i http://cymru.libraryebooks.co.uk, yna nodwch eich cerdyn a rhif pin, dewiswch lyfr a lawrlwythwch eich dewis i'ch dyfais.

Lawrlwytho eLyfrau i ddyfeisiau tabled - dyfeisiau Android

Lawrlwytho gyda Dyfais Android

Er mwyn lawrlwytho'n llwyddiannus i'ch dyfais Android mae'n rhaid i chi gael yr ap Aldiko wedi'i osod. Ar ôl gosod a ffurfweddu'r ap gyda'ch Rhif Adobe gallwch ddechrau lawrlwytho eich teitlau gan bori gwefan Llyfrgell Cymru drwy eich dyfais.
Ychwanegwch eich llyfrgell i 'My Catalogs' o fewn Aldiko

Gallwch ychwanegu'ch llyfrgell gyhoeddus fel byr-lwybr o fewn Aldiko. Bydd gwneud hyn yn caniatáu i Aldiko i ymdrin â phob lawrlwythiad yn awtomatig o'r safle hwn. I ychwanegu'r llyfrgell at eich Ap Aldiko, agorwch Aldiko a dilynwch y canllawiau isod.



1/ dewiswch 'Store' 2/ dewiswch y dewislen cywir 3/ dewiswch 'my catalogs'



4/ dewiswch '+' 5/rhowch deitl, ee Library Nawr ar gael

Yn y bocs URL rhowch

www.://cymrulibraryebooks.co.uk

Erbyn hyn dylech fod yn gallu cyrraedd y llyfrgell ar-lein drwy'r ddweis 'Library Ebooks' yn Alkido.

Lawrlwytho eLyfrau i ddyfeisiau tabled - Cwestiynau Cyffredin 1 o 2

Sut mae'r Gwasanaeth e-lyfr yn gweithio?

Gan ddefnyddio'ch Cerdyn Llyfrgell a'ch PIN, gall ddefnyddwy yng Nghymru mewngofnodi i wasanaeth eLyfr diogel a dewis hyd at 6 eLyfr i'w lawrlwytho ar unrhyw adeg unigol.

Sut ydw i'n dewis e-lyfr i'w lawrlwytho?

Logiwch ymlaen at wasanaeth eLyfr Cymru gan ddefnyddio'ch Cerdyn Llyfrgell a Phin.

- Dewiswch y teitl yr hoffech lawrlwytho naill ai drwy bori yn ôl 'Latest Arrivals' neu yn ôl 'Genre', neu drwy nodi testun yn y blwch chwilio.
- Dewiswch drwy glicio ar y teitl.
- Os yw'r teitl ar gael ac rydych yn dymuno'i lawrlwytho, cliciwch 'Add to basket'. (Os yw'r teitl allan ar fenthyg, byddwch yn gallu gosod archeb gadw).
- Bydd hyn yn mynd â chi i'r sgrîn 'Basket Items'.
- Byddwch yn sylwi bod y teitl wedi cael ei neilltuo am 30 munud er mwyn rhoi amser i chi ystyried unrhyw deitlau eraill efallai y byddwch am ddewis, hyd at uchafswm o 6.
- Pan fyddwch yn barod, cliciwch ar y botwm 'Checkout'. Bydd y teitl wedyn yn cael ei rhoi i chi, ac yna fe allwch ddechrau ar y broses lawrlwytho ar eich cyfrifiadur/MAC/Dyfais.

Beth yw Rhif Adobe? Pam fod angen un arnaf? Sut ydw i'n cael un?

Mae angen Rhif Adobe arnoch er mwyn dilysu'ch dyfais i'w ddefnyddio gyda'n gwasanaeth. Pan fydd teitl yn cael ei lawrwytho, mae'n cael ei gloi i'ch Rhif Adobe. Mae hyn yn atal rhannu heb awdurdod o'n teitlau. Rhaid i'ch holl ddyfeisiau cael eu neilltuo i'r un Rhif Adobe fel iddynt allu darllen eich teitlau ar fenthyg.

Pa mor hir mae'r e-lyfr yn aros ar fy nyfais?

Mae'r e-lyfr ar gyfnod benthyciad hyd at uchafswm o 21 diwrnod, ac ar ôl hynny bydd yr eLyfr yn dod i ben ac ni fydd yn ddarllenadwy ar eich dyfais. Mae'r e-lyfr wedyn yn dod ar gael ar gyfer defnyddiwr arall i'w lawrlwytho. Fe'ch cynghorir i ddewis llai na 21 diwrnod, cyn lawrlwytho, os ydych yn dymuno defnyddio yn llawn eich hawl i fenthyciad 6 llyfr ac yn debygol o ddarllen y llyfr mewn llai na 21 diwrnod.

Gaf i estyn y cyfnod benthyg?

Na. Os nad ydych wedi gorffen gyda'r e-lyfr, gallwch ei lawrlwytho eto os nad oes archeb gadw ynghlwm wrth yr eLyfr. Os oes archebion cadw, yna bydd angen i chi ychwanegu eich manylion at y rhestr archebion cadw a byddwch yn cael gwybod pan fydd yr eLyfr ar gael i chi ei fenthyg.

Os yw e-lyfr yn cael ei ddefnyddio, alla'i greu archeb gadw?

Cewch, mae'r gwasanaeth eLyfr yn eich galluogi i gadw e-lyfr sydd eisoes wedi cael ei lawrlwytho. Os ydych yn dymuno cynnwys eich cyfeiriad e-bost gyda'r archeb gadw byddwch yn cael eich hysbysu cyn gynted y mae'r teitl ar gael.

Pa mor hir sydd gen i er mwyn lawrlwytho'r e-Lyfr pan fydd fy nheitl ar gadw yn dod ar gael i mi i'w lawrlwytho?

Mae gennych hawl i dri diwrnod ar gyfer lawrlwytho'r eLyfr ac ar ôl hynny bydd yr eLyfr yn cael ei gynnig i'r archeb gadw nesaf, neu'n dychwelyd i'r stoc eLyfrau er mwyn cael ei ddewis gan ddefnyddwyr eraill.

Lawrlwytho eLyfrau i ddyfeisiau tabled - Cwestiynau Cyffredin 2 o 2

A allaf lawrlwytho i Ddarllenwyr Kindle Amazon?

Nid yw Amazon yn caniatáu cynnwys trydydd parti i gael eu defnyddio ar eu eDdarllenwyr. Fodd bynnag, gallwch ddarllen ein teitlau ar dabled Amazon, megis Kindle Fire HD. I wneud hyn, rhaid i chi osod yr apiau eDdarllen Aldiko neu Bluefire.

A allaf lawrlwytho teitl mwy nag unwaith yn ystod y cyfnod y benthyciad?

Mewn achos annhebygol o lawrlwytho'n methu neu bod dyfais yn camweithio, gallwch lawrlwytho e-lyfr oddi wrth wasanaeth eLyfr Cymru drwy mewngofnodi trwy'r sgrîn 'Manage Loans/Reservations', drwy gydol cyfnod y benthyciad.

Sut ydw i'n dychwelyd e-Lyfr unwaith y byddaf wedi gorffen ei ddarllen?

Yn anffodus, nid yw'n bosibl i 'ddychwelyd' e-lyfr unwaith y caiff ei dynnu allan ar fenthyg. Mae cytundebau cyhoeddi llym yn ein rhwystro rhag ailgyhoeddi teitl cyn i ddyddiad lawrlwytho y llyfr ddod i ben. Mae hyn oherwydd nad ydym yn gallu sicrhau bod y llyfr 'dychwelyd' yn dal i fodoli ar unrhyw un o'ch dyfeisiau. Byddai ailgyhoeddi teitl sy'n dal i fodoli ar ddyfais benthyciwr blaenorol yn arwain atom i sefyllfa lle'r ydym yn torri ein cytundebau gyda chyhoeddwyr a gallai arwain at y cyhoeddwyr i dynnu eu teitlau oddi ar ein gwasanaeth.

A yw'r holl lyfrau sydd ar gael ar ffurf e-lyfr?

Dim ond canran fechan o lyfrau argraffedig copi caled sydd ar gael fel eLyfr. Mae yna hefyd rai cyhoeddwyr yn y DU nad ydynt yn caniatáu i'w teitlau eLyfr i gael eu benthyg. Mae'r nifer o e-deitlau ar gael i'w benthyg yn cynyddu drwy'r amser. Ewch i Wasanaeth eLyfr Cymru yn aml er mwyn gweld unrhyw deitlau newydd sydd wedi eu hychwanegu.

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y canllaw hwn wedi cael ei ysgrifennu i helpu chi. Dyli'r nodi y gall y gwybodaeth a geir yma newid neu fynd allan o ddyddiad. Os oes angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'ch cydlynydd Get IT Together.

Yng Nghymru, mae Get IT Together yn bartneriaeth rhwng Citizens Online; BT; trwy eu rhaglen y Gymdeithas Gysylltiedig;Cymunedau 2.0; Ymddiriedolaeth Nominet; Get Caerphilly Online (rhan o Gymunedau 2.0); Cyngor Caerffili; Cyngor Gwynedd; Tai Cymunedol Gwynedd; Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a Chyngor Rhondda Cynon Taf.

Get IT Together

BT

Citizens Online

Communities Cymunedau 2.0

ERDF

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop

Europe & Wales: Investing in your future

European Regional Development Fund